ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Cyfathrebu Syniadau

TGCh y Blynyddoedd Cynnar

Trosolwg o'r Uned hon:

Bydd plant yn datblygu sgiliau siarad a gwrando drwy gyfleoedd i archwilio a siarad am TGCh yn y byd ehangach. Maent yn dechrau defnyddio camerâu i dynnu lluniau a defnyddio dyfeisiau syml megis meicroffonau 'Tuniau Siarad' i recordio seiniau. Maent yn defnyddio bysellfwrdd cyfrifiadur i adnabod llythrennau a rhifau ac arbrofi wrth wneud marciau a thestun sy'n datblygu ar y cyfrifiadur. Maent yn ymateb i ysgogiadau amlgyfrwng i gyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau ac ymestyn eu geirfa yn Saesneg ac yn Gymraeg drwy weithgareddau TGCh addas a strwythuredig. Gall staff ddefnyddio neu greu adnoddau bwrdd gwyn rhyngweithiol, llyfrau electronig, straeon ar ffurf lluniau, cyflwyniadau sleidiau neu glipiau fideo i ysgogi trafodaeth a helpu'r plant i gofio.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau: defnyddio dyfeisiau syml i chwarae seiniau a thynnu lluniau a deall bod modd argraffu testun/delweddau ar gyfrifiadur. Gallant deipio eu henwau a dod o hyd i lythrennau neu rifau unigol ar fysellfwrdd a symud gwrthrychau ar sgrîn yn hyderus. Maent yn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau TGCh, gan gynnwys cyfryngau a thestunau.

Bydd rhai disgyblion dim ond yn gallu: cynhyrchu darn ysgrifenedig a/neu luniau sy'n datblygu ar gyfrifiadur neu fwrdd gwyn rhyngweithiol a symud gwrthrychau ar sgrîn ar gyfer tasg benodol.

Bydd rhai plant hefyd yn gallu: defnyddio dyfeisiau syml i recordio/chwarae seiniau a thynnu lluniau. Gallant deipio eu henwau ac maent yn dechrau defnyddio bysellfwrdd i ysgrifennu rhai geiriau syml ac argraffu eu gwaith. Gallant symud geiriau, rhifau, llythrennau neu luniau ar sgrîn ar gyfer tasg benodol ac ymateb yn hyderus i amrywiaeth o ysgogiadau TGCh gan gynnwys cyfryngau a thestunau.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol (DPChLlAD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (DIG)	Datblygiad Creadigol (DC)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**ChAA**)
Datblygiad Mathemategol (DM)	Datblygiad Corfforol (DC)	Chwarae Rôl (**ChR**)

DPChLIAD ILICh DM DIG DGB DC DC ChAA ChR

Y Blynyddoedd Cynnar **Creu a Chyflwyno Gwybodaeth a Syniadau**

Asesiad gan Athrawon: *Dylai'r sgiliau y mae'r plant yn eu harddangos fod yn rhan o asesu parhaus. Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio unrhyw gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun Gwaith hwn.*

Recording Sheet Pupil Self Assessment

Cyfathrebu Syniadau

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Ymateb ar lafar i amrywiaeth o ysgogiadau gan gynnwys cyfryngau a thestunau TGCh.	PSDWBCD L L C W L D	Defnyddio camera digidol/dyfeisiau recordio fideo/sain i gofnodi profiadau disgyblion, o dan do ac yn yr arwyr agored. Gellir defnyddio'r rhain ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol neu ar gyfrifiaduron i helpu'r plant i gofio, ysgogi trafodaeth a hybu datblygiad iaith a rhyngweithio gydag oedolion a/neu gyfoedion. Dylid annog disgyblion i ddefnyddio camerâu digidol fel rhan o ddarpariaeth barhaus. Gellir creu llyfrau electronig a gall disgyblion ac athrawon ddefnyddio microffon i recordio eu lleisiau eu hunain. Gellir defnyddio'r rhyngrwyd fel adnodd, gydag amrywiaeth o ysgogiadau amlgyfrwng i ddatblygu themâu ac annog llefaredd. Gellir defnyddio copi o lun digidol neu ddyfais recordio megis 'Tun Siarad' neu recordiad sain fel rhan o 'fasged llefaredd' i ysgogi ymateb y disgyblion a'u hannog i siarad.	Geiriau Lluniau Seiniau Animeiddiadau Fideos Microffon Geiriau pwnc	Camera digidol, camera fideo, microffon, rhyngrwyd, microsgop digidol, CD-ROMs, DVDs Llyfrau, delweddau ac effeithiau sain electronig Rhaglenni teledu i blant Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol Photostory3 'Tun Siarad'	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau
Ymwybodol y gellir defnyddio TGCh i gyflwyno geiriau, testun, lluniau a rhifau.		Siarad â'r plant am y testun/geiriau, rhifau a lluniau maent yn eu gweld o'u cwmpas, *e.e. labeli, arwyddion, posteri, llyfrau.* Gofyn iddynt pam mae'r testun yno a beth mae'n ei ddweud wrthynt. Esbonio i'r plant eu bod yn gallu ysgrifennu ar y cyfrifiadur, gan roi llawer o gyfleoedd iddynt ddefnyddio bysellfwrdd ac argraffu i ddatblygu ysgrifennu. Gydag ardaloedd chwarae rôl, gall plant ddefnyddio cyfrifiadur i lunio testun sy'n datblygu wrth chwarae a gallant ddefnyddio hen fysellfwrdd i esgus eu bod yn llunio testun. Plant yn ysgrifennu eu henwau gan ddefnyddio bysellfwrdd cyfrifiadur.	Arwyddion Labeli Posteri Geiriau Ysgrifennu Rhifau Lluniau	Prosesydd geiriau/Pecyn cyhoeddi pen-ddesg, delweddau/ Clipart	
Symud geiriau, rhifau, llythrennau neu luniau ar sgrîn ar gyfer tasg benodol.		Paru gweithgareddau drwy lusgo llythrennau, rhifau a/neu luniau e.e. seiniau llythrennau cyntaf i Clipart, rhifau i grwpiau o wrthrychau, paru lluniau etc. Dilyniannu patrymau neu gymharu meintiau o'r lleiaf i'r mwyaf etc. Dosbarthu gwrthrychau mewn grwpiau.	Clicio Llusgo Llygoden Gwrthrych Clipart Rhif Llythyren Delwedd Dosbarthu	Prosesydd geiriau/pecyn cyhoeddi pen-ddesg, rhyngrwyd Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol meddalwedd priodol	
Arbrofi wrth wneud marciau drwy ddefnyddio llygoden neu fwrdd gwyn rhyngweithiol		Annog y plant i ddefnyddio'r llygoden gyda phecyn paent neu fwrdd gwyn rhyngweithiol i wneud marciau. Gellid cysylltu hyn ag ardal chwarae rôl neu weithgaredd trawsgwricwlaidd hefyd. 	Llythyren Rhif Pin Bysellau Botymau Gwasgu Teipio Bwrdd gwyn rhyngweithiol	Prosesydd geiriau/pecyn cyhoeddi pen-ddesg. pecyn graffeg, meddalwedd bwrdd gwyn rhyngweithiol, argraffydd	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau
Creu darn o ysgrifennu sy'n datblygu a/neu luniau ar y cyfrifiadur.		Dylid annog profiad cynnar o ddefnyddio'r bysellfwrdd i lunio ysgrifennu sy'n datblygu ac argraffu, yn enwedig yn yr ardaloedd chwarae rôl. Gellir defnyddio Clipart a'r marciau a wneir gan y plant mewn pecyn graffeg ar y cyd â'r testun sy'n datblygu. Pan fo'n briodol, gall oedolyn ysgrifennu yn ôl cyfarwyddyd y plentyn.	Llythyren Rhif Pin Bysellau Botymau Gwasgu Teipio Llun Cyrchwr	Prosesydd geiriau/pecyn cyhoeddi pen-ddesg. pecyn graffeg meddalwedd bwrdd gwyn rhyngweithiol, argraffydd	
Dod o hyd i lythrennau neu rifau unigol ar fysellfwrdd		Annog y plant i ymarfer nodi llythrennau a rhifau maent yn eu hadnabod ar bysellfwrdd neu o fysellfwrdd fwrdd gwyn rhyngweithiol symudol. Nodi llythrennau sengl i deipio eu henwau.	Llythyren Rhif Pin Bysellau Gwasgu Teipio Llun	Prosesydd geiriau bwrdd gwyn rhyngweithiol, meddalwedd priodol	
Dechrau deall bod bysellau penodol ar gyfrifiadur yn peri i rywbeth ddigwydd e.e. y bylchwr		Dangos dwy frawddeg i'r plant, un gyda bylchau ac un heb fylchau a'u darllen i'r plant. Trafod gyda'r plant a oeddent wedi deall yr hyn a ddarllenwyd ac a oedd yn swnio'n rhyfedd. Dangos sut i ddefnyddio'r bylchwr i greu bwlch. Rhoi cyfle i'r plant chwarae wrth deipio ar y fysellfwrdd (chwarae rôl) gan greu bylchau rhwng grwpiau o lythrennau. Gellir defnyddio'r math hwn o weithgaredd i addysgu'r disgyblion sut i ddefnyddio'r fysell 'shift' i greu prif lythyren wrth ysgrifennu eu henwau eu hunain.	Testun Llythyrau Geiriau Brawddeg Prif lythyren Atalnod llawn Bylchau Bylchwr Bysell shift	Prosesydd geiriau	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau
Dechrau deall y gellir argraffu testun/delweddau a grëwyd ar gyfrifiadur.		Dangos eicon yr argraffydd i'r plant ac esbonio bod y cyfrifiadur yn gallu cynhyrchu copi papur o'r hyn sydd ar y sgrîn - *os yw'n gysylltiedig ag argraffydd.* Trafod rheolau argraffu e.e. gofyn i'r athro/athrawes cyn argraffu. Gall disgyblion argraffu eu henwau neu luniau o'u hunain neu wrthrychau/marciau maent wedi'u creu ar gyfrifiadur. Tynnu llun ar gyfrifiadur ac ychwanegu eu henwau neu enw gwrthrych.	Argraffydd Cyfrifiadur Sgrîn Copi papur Eicon Symbol	Prosesydd geiriau/pecyn cyhoeddi pen-ddesg, pecyn graffeg, meddalwedd bwrdd gwyn rhyngweithiol argraffydd	
Dechrau defnyddio dyfeisiau syml i recordio/chwarae seiniau a thynnu lluniau.		Dylai camera digidol fod ar gael i'r plant. Gall hwn fod yn adnodd â label dwyieithog arno i'w ddefnyddio o dan do ac yn yr awyr agored. Dylai cerdyn ysgogi ar gyfer y staff cefnogi gael ei arddangos gyda'r camera digidol a dylai awgrymu geirfa briodol a chwestiynau i'w gofyn i'r plant. Dylid addysgu'r plant i ofalu am y camera a defnyddio'r cortyn gwddw. Rhaid eu hannog i ddychwelyd y ddyfais i'r ardal adnoddau benodol. Yn yr un modd, dylid annog defnydd o ddyfeisiau recordio sain megis microffon, chwaraewyr MP3, Tuniau Siarad, cardiau post llafar, albymau lluniau llafar etc i'r plant recordio eu lleisiau a gwrando ar ac ymateb i recordiadau Saesneg a Chymraeg. 	Llun Delweddau Sain Lleisiau Chwaraewr MP3 Edrych Gwrando	Camera digidol, chwaraewr MP3, Tuniau Siarad, cardiau post llafar, albymau lluniau llafar etc.	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau